



Ein cyf/Our ref VG/01687/20

Janet Finch-Saunders AC  
Aelod Cynulliad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
Government.Committee.Business@llyw.cymru

20 Ebrill 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch cau meddygfeydd teulu Troed-y-Bryn a Lansbury.

Er na allaf i na fy swyddogion ymyrryd yn uniongyrchol yn y mater hwn, rydym yn gwerthfawrogi fod hwn yn gyfnod ansefydlog i'r cleifion y mae cau'r meddygfeydd hyn yn effeithio arnynt. Pan fydd meddyg teulu annibynnol yn penderfynu terfynu ei gontract gyda bwrdd iechyd, mae cyfrifoldeb ar y bwrdd iechyd hwnnw i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu i'r cleifion hynny sydd wedi'u heffeithio yn sgil cau'r feddygfa.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gynlluniau i symud cleifion i bractisau cyfagos. Mae llythyr wedi'i gyhoeddi gan y Bwrdd Iechyd a bydd y newidiadau'n dod i rym erbyn 1 Mai 2020.

Mae Cymru, ynghyd â rhannau eraill o'r DU, wedi gorfod ymdrin â materion yn ymwneud â recriwtio meddygon teulu. Yn 2016, lansiays ymgyrch genedlaethol, "Gwlad, Gwlad: Hyfforddi Gweithio Byw", i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes meddygaeth yng Nghymru. Mae'r ymgyrch yn cefnogi'r gweithgareddau recriwtio a gynhelir gan fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau a phractisau meddygon teulu.

Fel rhan o'r ymgyrch, mae dau gymhelliad wedi bod ar gael. Mae'r cymhelliad cyntaf o £20,000 yn cael ei gynnig i feddygon teulu dan hyfforddiant sy'n dewis hyfforddi mewn maes y mae'n anodd recriwtio iddo. Telir y cymhelliad os yw'r meddyg teulu dan hyfforddiant yn ymrwymo i aros mewn maes sydd wedi'i dargedu am flwyddyn ar ôl cymhwyso. Taliad untro o £2,000 yw'r ail gymhelliad. Mae hwn ar gael i bob meddyg teulu dan hyfforddiant i dalu costau'r arholiad terfynol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA


[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ymgyrch, ynghyd â'r cymhellion ariannol, yn helpu i gynyddu nifer y meddygon sy'n dewis cwblhau eu hyfforddiant i fod yn feddygon teulu yng Nghymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading 'Vaughan Gething'. The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services